# STRATEGAETH DRETH

| | |
|---|---|
| Perchennog | Y Prif Swyddog Ariannol |
| Rhif y fersiwn | 1.0 |
| Dyddiad Cymeradwyo | 24 Tachwedd 2025 |
| Cymeradwywyd gan | Y Cyngor |
| Dyddiad dod i rym | 24 Tachwedd 2025 |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | Mehefin 2026 |

# Strategaeth Dreth

1. Rhagarweiniad
    1.1 Diben
    1.2 Cwmpas (gan gynnwys deddfwriaeth)
    1.3 Statws trethiant
    1.4 Amcanion
    1.5 Egwyddorion arweiniol
2. Rheoli Risgiau Treth yn y DU
    2.1 Cyfrifoldebau
3. Agwedd at Gynllunio Trethi
    3.1 Agwedd at gynllunio trethi
4. Risg
    4.1 Ffactorau Risg
    4.2 Fframwaith rheolaeth fewnol
    4.3 Rheoli risg
    4.4 Llywodraethiant
    4.5 Rhanddeiliaid
5. Perthynas â'r Awdurdodau Trethi
    5.1 Perthynas â'r awdurdodau trethi
6. Is-gwmnïau
    6.1 Rhestr o is-gwmnïau grŵp y Brifysgol

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Diben

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth Grŵp y Brifysgol ar drethiant y DU a thramor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Gorffennol 2026. Mae'r Strategaeth Dreth hon yn cadarnhau ymagwedd y Brifysgol at reoli risg a llywodraethiant, gan esbonio'r lefel risg y tybir ei bod yn dderbyniol. Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu agwedd y Brifysgol at gynllunio trethi ac yn esbonio sut mae'n rhyngweithio ac yn ymgysylltu â Chyllid a Thollau EF.

Mae'r Brifysgol o'r farn bod y Strategaeth hon yn cydymffurfio â Deddf Cyllid 2016, Atodlen 19, paragraff 16.

## 1.2 Cwmpas

Mae'r Strategaeth Dreth yn gymwys i Brifysgol Abertawe a'r holl endidau is-gwmni cysylltiedig, yn unol â Deddf Cyllid 2016, Atodlen 19, paragraff 16. Mae rhestr o'r is-gwmnïau a oedd yn bodoli ar ddechrau 2025-26 wedi'i chynnwys yn adran 6 isod, ac mae'r Strategaeth hefyd yn gymwys i'r holl is-gwmnïau newydd a gafodd eu sefydlu neu eu caffael yn ystod y flwyddyn.

Mae cyfeiriadau at "Drethiant y DU" yn cyfeirio at y trethi a'r tollau a nodir ym mharagraff 15(1) o Atodlen 19 o Ddeddf Cyllid 2016, sy'n cynnwys Treth Incwm, Treth Gorfforaeth, PAYE, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Treth Premiymau Yswiriant, toll dramor, toll gartref a Threth Dir y Dreth Stamp. Mae cyfeiriadau at "dreth", "trethi", "trethiant" yn cyfeirio at drethiant yn y DU ac at yr holl drethi a thollau cyfatebol yn fyd-eang sy'n gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar y Brifysgol.

Cytunwyd ar y Strategaeth hon gan y Prif Swyddog Ariannol a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac fe'i cymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol. Bydd y Strategaeth hon ar waith drwy gydol blwyddyn ariannol 2025-26 oni bai bod fersiwn ddiweddarach yn ei disodli. Caiff y Strategaeth hon ei hadolygu'n flynyddol.

## 1.3 Statws Trethiant

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe gan Siarter Frenhinol ym 1920 a chafodd ei chofrestru'n elusen (rhif 1138342) yn 2010. Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru gyda Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Gallai'r Brifysgol fod yn esempt rhag trethiant mewn perthynas ag enillion sy'n deillio o'i diben elusennol. Mae hyn yn cynnwys addysgu, ymchwil, cyhoeddi, gwasanaethau ategol, breindaliadau, y rhan fwyaf o incwm o fuddsoddiadau ac enillion trethadwy i'r graddau y mae'r rhain yn berthnasol i ddibenion elusennol yn unig. Nid yw'r esemptiad hwn yn gymwys i endidau'r grŵp.

Fel corff cymwys, mae gan y Brifysgol esemptiad rhannol at ddibenion TAW yn y DU oherwydd bod darparu addysg yn weithgarwch esempt. Cytunir ar ddynodi TAW gyda Chyllid a Thollau EF drwy'r Dull Arbennig Esemptiad Rhannol.

Mae TAW yn gymwys i weithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymgynghori a wneir gan grŵp y Brifysgol ac mae Treth Gorfforaeth yn gymwys i'r rhain hefyd. Rhennir colledion trethadwy rhwng endidau'r grŵp treth a'r bwriad yw y caiff unrhyw elw dros ben, lle bo'n briodol, ei dalu i'r Brifysgol o dan Rodd Cymorth, gan negyddu'r rhwymedigaeth.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr ac mae'n gweithredu cynllun PAYE y DU ac yn cydymffurfio hefyd â deddfwriaeth dramor ar gyfer cyflogeion sy'n gweithio y tu allan i'r DU.

Pan fo'r Brifysgol yn gweithredu dramor, mae'n cael cyngor priodol ar faterion trethiant y DU a thramor ar gyfer pob gwlad.

Mae gweithrediadau grŵp y Brifysgol yn gymhleth ac yn amrywiol, sy'n cynyddu cymhlethdod o ran ei faterion treth.

### 1.4 Amcanion

Mae amcanion y Strategaeth Dreth yn cynnwys:

a. Sut bydd y Brifysgol yn gweithio gyda Chyllid a Thollau EF a chyrff threthi tramor i fodloni gofynion statudol a deddfwriaethol.
b. Cynlluniau'r Brifysgol i reoli risgiau a chyfleoedd trethi, gan nodi a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhain.
c. Y lefel risg y mae'r Brifysgol yn fodlon ei derbyn.

ch. Rheoli gweithgarwch cynllunio trethiant priodol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion trethi ac adrodd.

d. Sut mae'r strategaeth yn cynorthwyo wrth gyflawni amcanion y Brifysgol.

### 1.5 Egwyddorion arweiniol

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ymdrin â'i materion treth yn unol â'r arfer moesegol a'r safonau proffesiynol gorau. Mae'r egwyddorion arweiniol canlynol yn amlinellu sut bydd y Brifysgol yn rheoli ei threthiant.

i. Ymdrechu i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheolau, rheoliadau a gofynion adrodd mewn perthynas â threth, lle bynnag y mae'n gweithredu drwy:
   a. Gyfrifo am drethiant a'i dalu mewn modd cywir ac amserol.
   b. Dogfennu a chynnal rheolaethau, prosesau a gweithdrefnau.
   c. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen am gydymffurfiaeth â threthi drwy gydol grŵp y Brifysgol.

   ch. Defnyddio gofal a doethineb proffesiynol wrth wneud penderfyniadau.

   d. Ceisio cyngor priodol yn ôl yr angen, yn enwedig ar gyfer trafodiadau cymhleth ac anarferol neu pan fo’r gyfraith yn agored i'w dehongli.

   dd Gwneud datgeliad prydlon i Gyllid a Thollau EF, neu i unrhyw awdurdod trethi byd-eang arall, ynghylch pob anghywirdeb o ran treth y mae'n ymwybodol ohono.

   e. Sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn deddfwriaeth, arfer gorau neu ganllawiau'r sector.
   f. Peidio â chymeradwyo trefniadau gydag unrhyw drydydd parti heblaw am ar delerau hyd braich.
ii. Defnyddio diwydrwydd dyladwy wrth reoli risgiau sy'n gysylltiedig â materion treth, gan sicrhau bod llywodraethiant a gweithdrefnau'n briodol, rheoli risg fasnachol a risg i enw da drwy roi'r strategaeth dreth ar waith.
iii. Peidio ag ymgymryd â thrafodiadau a strwythurau oni bai eu bod yn cefnogi nodau ac amcanion elusennol y Brifysgol, neu'r rhai hynny a chanddynt resymeg sy'n gysylltiedig â'r nodau elusennol.
iv. Ceisio defnyddio cymhellion a dulliau rhyddhad treth cyfreithlon i leihau rhwymedigaethau treth, ond peidio ag ymrwymo i drafodiadau os ennill mantais dreth yw eu prif bwrpas. Peidio â dehongli cyfraith treth yn fwriadol mewn ffordd sy'n groes i ysbryd gwreiddiol deddfwriaeth treth.
v. Defnyddio ymagwedd ar sail risg at gydymffurfiaeth â threthi wrth gychwyn deialog â Chyllid a Thollau EF neu unrhyw awdurdod treth dramor, gan sicrhau tryloywder a deialog agored, a meithrin perthnasoedd gweithio da yn seiliedig ar uniondeb a chydweithredu.
vi. Cyflogi staff â chymwysterau addas i ymdrin â threthi a chefnogi eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan gyfrannu'n weithredol at fforymau'r sector sy'n rhannu arfer gorau.

## 2. Rheoli Risgiau Treth yn y DU

### 2.1 Cyfrifoldebau

Cydnabyddir y cyfrifoldebau canlynol yn y Strategaeth Dreth:

a. Rhwymedigaethau statudol.
b. Rhwymedigaethau adrodd.
c. Datgelu gwallau treth yn brydlon.

ch. Gwneud penderfyniadau'n foesegol gan ddefnyddio'r lefel risg briodol.

d. Rheoli cyllid yn ofalus yn unol â'r amcanion elusennol.
dd. Cyfrifoldebau cytundebol ac ymddiriedol.

## 3. Risg

### 3.1 Ffactorau Risg

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i adolygu risgiau mewn perthynas â threthiant yn rheolaidd, gan ddiweddaru'r gofrestr risgiau treth fel y bo'n briodol. Mae risgiau penodol yn cynnwys:

a. Y cymhlethdod sy'n rhan o weithredu Prifysgol a arweinir gan ymchwil ac sydd ymhlith y 30 brifysgol orau yn y DU, sefydliad amlddisgyblaeth a chanddo weithgareddau byd-eang cynyddol.
b. Cymhlethdod cydymffurfiaeth y sector addysg uwch gan adlewyrchu'r mathau o ryddhad treth sydd ar gael i elusennau.
c. Cyflymder newid yn y sector prifysgolion ac addysg uwch.

### 3.2 Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau, ei hamcanion strategol a'i pholisïau, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r arian a'r asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar risg ac wedi'i chynllunio i reoli’r risg o fethu cyflawni amcanion strategol, yn hytrach na'i dileu yn gyfan gwbl, felly mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled materol. Mae'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio i sicrhau bod y risg o anghywirdeb yn y data treth isorweddol yn cael ei lleihau i'r lefel isaf bosib.

Mae'r Brifysgol wedi strwythuro ei systemau a'i phrosesau cyfrifo â'r nod o leihau risg treth i'r lefel isaf sy’n dderbyniol. Caiff gweithdrefnau ariannol eu cynnal a'u diweddaru yn ôl yr angen. Cynhelir hunan-adolygiadau ariannol rheolaidd gan y tîm Trethiant a thrwy Archwilio Mewnol, ac adolygir prosesau unigol yn allanol gan arbenigwyr treth.

Mae Cofrestr Ddirprwyo a Rhestr o Gyfyngiadau Ariannol y Brifysgol wedi'u cynllunio i sicrhau defnydd priodol o adnoddau'r Brifysgol. Maent yn cofnodi atebolrwydd ac yn rhan o'r fframwaith rheoli, gan sicrhau rheolaeth ariannol gywir ac effeithiol, gan gynnwys trethiant.

### 3.3 Rheoli risg

Mae elfennau allweddol o system nodi risg a rheoli risgiau’n effeithiol y Brifysgol yn cynnwys y canlynol:

a. Cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion sefydliadol drwy broses cynllunio blynyddol barhaus.
b. Caiff yr holl risgiau, gan gynnwys o ran llywodraethiant, rheoli, ansawdd, enw da a rhai ariannol, eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol, sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd sydd wedi'u hamlinellu'n glir. Mae'r Gofrestr Risgiau yn creu portffolio cytbwys o fygythiad risgiau sy'n canolbwyntio ar y risgiau allweddol pwysicaf.
c. Gwerthuso'r tebygolrwydd y daw risgiau'n realiti a'u heffaith fel rhan o'r un broses a sefydlu rheolaethau lliniaru.

ch. Rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n asesu risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol.

d. Sicrhau bod prosesau asesu risg a rheolaeth fewnol yn rhan annatod o weithrediadau parhaus pob uned.
dd. Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ac yna i'r Cyngor ar reolaeth fewnol a risg.
e. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn cael adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol ac mae'r cynllun a'r strategaeth archwiliad mewnol yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.
f. Adrodd yn flynyddol i'r Cyngor am brif ganlyniadau'r adolygiad nodi, gwerthuso a rheoli risgiau.

ff. Caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheolaeth fewnol eu llywio gan Archwilwyr Mewnol proffesiynol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Drwy ei hymagwedd at risg mewn perthynas â threthiant, mae'r Brifysgol yn ceisio lleihau risgiau treth i'r graddau y mae hynny'n dderbyniol yn rhesymol, gan gyflawni sicrwydd o ran trin trethi lle bo modd a sicrhau bod cyflwyniadau'n gywir ac yn amserol.

## 3.4 Llywodraethiant

Y Cyngor yw corff llywodraethu ac felly brif awdurdod y Brifysgol, sy'n golygu ei fod yn atebol yn y pen draw am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol ac am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor llywodraethu, sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl i ddechrau: Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg; Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Caiff pob un o'r pwyllgorau hyn ei gadeirio gan aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg yw'r rhan fwyaf o'u haelodau. Mae uwch-swyddogion o'r Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae'r holl bwyllgorau'n hysbysu'r Cyngor am eu penderfyniadau. Mae ganddynt gyfansoddiad ffurfiol a chaiff eu cylchoedd gorchwyl a'u haelodaeth eu cymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau.

Y Prif Swyddog Ariannol sy'n gyfrifol am drethiant y grŵp ar gyfer gwerthoedd islaw £50,000 a'r Is-ganghellor sy'n gyfrifol am werthoedd uwch. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Cysylltiol yn atebol i'r Prif Swyddog Ariannol a chaiff ei gefnogi gan y Rheolwr Trethiant a'r Pennaeth Cyflogres a Phensiynau wrth reoli materion trethiant beunyddiol y Brifysgol. Cefnogir y Rheolwr Trethiant a'r Pennaeth Cyflogres gan dimau bach. Mae'r Brifysgol yn cyflogi staff â chymwysterau addas yn y tîm trethiant, gyda staff yn gyfrifol am gynnal eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus, a chânt eu hannog i gyfranogi'n weithredol yn y sector.

Dim ond y Cyfarwyddwr Cyllid Cysylltiol, y Rheolwr Trethiant a'r Pennaeth Cyflogres sydd â'r awdurdod i ddarparu cyngor ar drethiant, ceisio cyngor gan arbenigwyr treth neu gysylltu â Chyllid a Thollau EF. Darperir cyngor ar drethiant fel rhan o fusnes mewnol, ac nid yw'r Brifysgol yn awdurdodi unrhyw unigolyn i ddarparu cyngor personol ar drethi, gan gynnwys i gyflogeion.

## 3.5 Rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid allweddol Strategaeth Dreth Grŵp y Brifysgol yw:

a. Yr Is-ganghellor a'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, a fydd yn cynrychioli'r Strategaeth Dreth yn fforymau a phwyllgorau amrywiol y Brifysgol, gan gynnwys y Cyngor.
b. Y Prif Swyddog Ariannol, a fydd yn goruchwylio Strategaeth Dreth y Brifysgol ac yn cynghori'r Pwyllgor Cyllid.
c. Y Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws, a fydd yn cynghori ar ddatblygiadau eiddo'r Brifysgol ac yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyladwy i'w heffeithlonrwydd o ran treth.

ch. Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a thîm Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Proffesiynol, a fydd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o weithio yn unol â Strategaeth Dreth y Brifysgol.

d. Cyfarwyddwyr is-gwmnïau, sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth treth cwmnïau unigol.
dd. Y tîm Partneriaid Busnes Cyllid, a fydd yn hyrwyddo'r Strategaeth Dreth mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd.
e. Y timau treth a chyflogres, a fydd yn gweithredu fel cynghorwyr treth proffesiynol i'r Brifysgol wrth gefnogi'r Strategaeth Dreth.

## 4. Agwedd at Gynllunio Trethi

### 4.1 Agwedd at gynllunio trethi

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei dyletswydd i gydymffurfio â deddfwriaeth trethiant ac mae'n ymrwymedig i weithredu â gonestrwydd ac uniondeb. Nod y Brifysgol, ar bob adeg, yw bod y grŵp yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddiol a statudol, yn y DU a thramor fel y bo'n briodol, gan adrodd a thalu'r dreth gywir mewn modd amserol.

Ni ddylai'r egwyddorion na'r côd ymddygiad ddehongli cyfraith treth yn fwriadol mewn modd sy'n groes i ysbryd gwreiddiol deddfwriaeth treth; mae'r brifysgol yn ymrwymedig i beidio â defnyddio cynlluniau osgoi treth. Nod egwyddorion y Brifysgol yw optimeiddio ei sefyllfa mewn perthynas â threth drwy ddefnyddio cymhellion a rhyddhad treth cyfreithlon er mwyn lleihau rhwymedigaethau treth, yn unol â'r hyn a ganiateir gan ddeddfwriaeth, â'r nod o fwyafu arian i gefnogi amcanion elusennol craidd y Brifysgol.

O bryd i'w gilydd, gall y Brifysgol geisio cyngor gan arbenigwyr treth i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y Brifysgol yn defnyddio arbenigwyr hefyd i geisio barn lle bo cymhlethdodau wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth treth neu i gynorthwyo gyda ffyrdd cyfreithlon o optimeiddio ein sefyllfa o ran treth. Bydd y Brifysgol yn ceisio cyngor arbenigwyr treth rhyngwladol ar gyfer gweithrediadau neu bartneriaethau tramor fel y bo'n briodol.

## 5. Perthynas â'r Awdurdodau Trethi

### 5.1 Perthynas â'r awdurdodau trethi

Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i gael perthynas dryloyw ac adeiladol ag awdurdodau trethi yn fyd-eang, lle bynnag y mae'n gweithredu. Bydd ein holl gysylltiadau ag awdurdodau trethi yn agored ac yn onest, cânt eu cynnal mewn modd proffesiynol ac amserol. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i weithio'n gydweithredol gydag awdurdodau trethi.

Mewn perthynas â Chyllid a Thollau EF, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i:

a. Ymwneud â Chyllid a Thollau EF mewn ffordd broffesiynol, agored, gydweithredol ac amserol.
b. Gwneud datgeliadau teg, cywir ac amserol, gan ymateb yn brydlon i ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth.
c. Gweithio'n gydweithredol gyda Chyllid a Thollau EF, gan geisio datrys problemau cyn gynted â phosib.
ch. Dod â sicrwydd i faterion treth y Brifysgol drwy gymryd rhan yn brydlon ac yn rhagweithiol mewn trafodaethau â Chyllid a Thollau EF ynghylch materion cymhleth lle ceir ansicrwydd o ran triniaeth trethi.
d. Tynnu sylw Cyllid a Thollau EF at drafodiadau sylweddol, trafodiadau anarferol, cynllunio a strategaeth treth fel y bo'n briodol.

## 6. Is-gwmnïau

### 6.1 Rhestr o is-gwmnïau grŵp y Brifysgol

Mae'r strategaeth dreth yn gymwys i bob endid sy'n rhan o grŵp y Brifysgol gan gynnwys:

a. Swansea Materials Research & Testing Ltd (06907603)
b. Swansea Innovations Ltd (03494913)
c. SU Pathway College Ltd (10689532)